**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**24 Hydref 2016**

**DEDDF TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (CYMRU) 2015**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Tynnu sylw'r Panel Gweithredol at Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac at y gofynion i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Cefndir**

2 Ar 29 Ebrill 2015, rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Fil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a daeth yn Ddeddf. Nod y ddeddfwriaeth yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gam-drin a thrais o'r fath, ac roedd yn destun craffu trylwyr drwy gydol y broses ddeddfwriaethol.

3 Mae'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru wedi cael eu dynodi'n awdurdodau perthnasol felly rhaid iddynt gydymffurfio â'r Ddeddf.

4 Ymysg pethau eraill, bydd y Ddeddf:

- Yn gwella'r trefniadau i hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr
- Yn cyflwyno gwaith ar sail anghenion ar gyfer datblygu strategaethau a fydd yn sicrhau trywydd strategol pendant ac yn cryfhau atebolrwydd

- Yn sicrhau perchnogaeth ar lefel strategol drwy benodi Cynghorydd Gweinidogol a fydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ac yn gwella'r cydweithio rhwng asiantaethau ar draws y sector hwn
- Yn gwella cysondeb, ansawdd a chydlyniant yn y modd y darperir gwasanaethau yng Nghymru.

## Gwybodaeth

5 Ochr yn ochr â'r Ddeddf, mae nifer o bolisïau ategol wrthi'n cael eu datblygu neu wedi cael eu datblygu eisoes. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yng Nghymru ar drais yn erbyn menywod a mathau eraill o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Rhaglen Perthnasoedd Iach mewn ysgolion.

6 Bu angen ymgynghori ynghylch y Ddeddf a'r strategaethau, y polisïau neu'r dogfennau fframwaith, a'r diweddaraf o'r rhain oedd ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – fframwaith darparu 2016 – 2021.

7 Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gyfarwyddyd statudol dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

8 Mae'r fframwaith hyfforddi hwn yn cyflwyno'r cysyniad o "Ofyn a Gweithredu": Proses ymholi wedi'i thargedu a gyflawnir gan wasanaeth cyhoeddus Cymru yng nghyswllt trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae angen i holl aelodau staff yn y sector cyhoeddus, os ydynt yn ymwneud â chymunedau, ofyn y cwestiynau priodol a chymryd y camau priodol os ydynt yn teimlo bod rhywun y maent wedi dod ar ei thraws yn dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol.

9 Rhaid i awdurdodau perthnasol lunio cynllun hyfforddi ar gyfer y staff, a rhaid cyflwyno hwnnw i Weinidogion Cymru erbyn 31 Mawrth 2017 a'i gyhoeddi ar ein gwefan cyn pen 12 wythnos ar ôl y dyddiad hwnnw.

10 Mae’r fframwaith yn cynnwys chwe grŵp o ofynion hyfforddi, sy’n dibynnu ar y math o waith a wneir a pha mor debygol yw dod i gysylltiad â dioddefwyr cam-drin domestig neu drais rhywiol. Bydd y rhai sy’n darparu cymorth uniongyrchol i ddioddefwyr yn cael hyfforddiant ar lefel fanylach na’r rhai sy’n cael cyswllt achlysurol yn unig.

11 Bydd staff GTAGC yn dod o fewn un o’r ddau gategori cyntaf, sef:

- Grŵp 1 – Bydd gan y rhai sy’n cymryd rhan fwy o ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Grŵp 2 – Adnabod arwyddion a symptomau, ymateb yn briodol i ddatgeliad digymell, gofyn cwestiynau priodol ac ymateb i gwestiynau.

12 Mae’n ofynnol i GTAGC raeadru hyfforddiant grŵp 1 i’r staff o fewn yr amserlenni a ganlyn:

- rhaid hyfforddi 50% o’r staff erbyn Mawrth 2017
- rhaid hyfforddi 100% o’r staff erbyn Mawrth 2018.

13 Caiff yr hyfforddiant grŵp 1 ei ddarparu drwy e-ddysgu, a gwneir gwaith ar hyn o bryd i sicrhau bod y pecynnau ar gael i’r holl staff yn Gymraeg ac yn Saesneg.

14 Bydd y modiwlau ymysg y modiwlau gorfodol yn y rhestr hyfforddiant gweithredol yn chwarter 3 rhwng Hydref a Rhagfyr 2016, a chyn eu rhyddhau rhoddir cyhoeddusrwydd i’r hyfforddiant hwn i annog pob aelod arall o’r staff i gael yr hyfforddiant yma.

15 Caiff yr hyfforddiant uwch i grŵp 2 ei ddarparu i staff sy’n gweithio yn y gymuned. Caiff hwn ei ddylunio a’i ddarparu gan hyfforddwyr a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru drwy gonsortia rhanbarthol.

**Argymhelliad**

16 Nodi gofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ac yn arbennig y gofynion o ran hyfforddi staff sydd yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.